# YSGOL GYNRADD GYMRAEG BRYN -Y- MÔR

*Pennaeth/ Headteacher: Mrs Elin Wakeham*

Mewn undod mae nerth /Stronger together

22/06/2020

Annwyl Rieni,

Rwy'n siwr eich bod wedi clywed ar y newyddion dros y penwythnos am yr ansicrwydd ynghylch yr wythnos olaf, Gorffennaf 20 – 24. Mae rhai siroedd wedi dweud na fydd yr wythnos yma yn mynd yn ei flaen. Rydym dal i aros i glywed gan Sir Abertawe. Unwaith bydd cadarnhad yn dod, byddwn yn eich hysbysu o'r penderfyniad.

Eto, diolchaf i chi am eich hamynedd.

Oes oeddech wedi cadarnhau bod eich plentyn yn dychwelyd, byddwch yn clywed gan y swyddfa erbyn diwedd y dydd heddiw. Ga'i ofyn yn garedig bod POB ymholiad sy'n ymwneud â grwpiau eich plant neu'n ymwneud ag ailagor yr ysgol, eu bod yn cael ei danfon a**t e bost yr ysgo**l ac o fewn oriau swyddfa lle ma modd.

Dyma e bost yr ysgol: **ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**
Neu ffoniwch ni ar: 01792 466354

Ar y diwrnod mae'ch plentyn yn dychwelyd - ffocws y dydd bydd:

- Lles
- Gwers allanol _Dim gwisg Ysgol. Gwisgwch trainers
- Cymhwysedd digidol
- Ychydig o rif a darllen Cymraeg

Bydd sesiynau Tymor yr Haf yn rhoi cyfle i ddisgyblion ail gysylltu gyda'r Ysgol a'i hathrawon ac i bontio i'r dosbarth newydd.

Cofiwch, bydd y **gwersi** rhith yn parhau trwy HWB tan ddiwedd y tymor ac ar gael i bawb.

Mi fydd y **cyfarfodydd** rhith yn dechrau ar y 29ain o Fehefin. **Mae rhain ar gael i bawb.** Mi fydd yr athrawon yn gosod amserlen i'r plant. Hysbysir hyn trwy HWB (Disgyblion Bl 2 – 6) neu trwy e bost i rieni i'r plant sy'n llai. Ffocws y sesiynau byw yma fydd lles, gwirio i weld a oes angen cymorth gyda unrhyw dasg ac hefyd i gefnogi y plant i siarad Cymraeg. Byddant yn dilyn y cynllun clonc. Dyma'r tro cyntaf i ni ddefnyddio y dull yma, a dwi'n siŵr, bydd yn cymryd ychydig o sesiynau i bawb ddod i arfer gyda'r dull newydd. **Cofiwch ddychwelyd eich cytundeb cartref i e-bost yr ysgol.**

**Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP**
**E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**
**Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk**
**Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1**
**Ffôn/ Tel: 01792 466354**

# YSGOL GYNRADD GYMRAEG BRYN -Y- MÔR

*Pennaeth/ Headteacher: Mrs Elin Wakeham*

Mewn undod mae nerth /Stronger together

Rwy'n siŵr bod llawer o gwestiynau gennych. Gofynnaf i chi ddanfon eich cwestiynau i e bost yr ysgol a fe wna'i gynhyrchu dogfen "Cwestiynau a Ofynnir yn Aml" mewn ymateb iddynt. Mae'n siŵr bod gan lawer ohonoch gwestiynau tebyg. E bost yr ysgol: **ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**


Cofiwch, oherwydd rheoliadau capasiti ar nifer y disgyblion a ganiateir yn yr ysgol ar unrhyw ddiwrnod penodol (33.3%), peidiwch ag anfon eich plentyn i'r ysgol oni bai eich bod wedi cael **cadarnhad** ym mha grŵp y mae eich plentyn ynddo.

| | *Llun* | *Mawrth* | *Mercher* | *Iau* | *Gwener* |
|---|---|---|---|---|---|
| *Wythnos yn dechrau 29.6.2020* | *Grŵp A* | *Grŵp B* | *Dysgu o hirbell* | *Group C* | *Group Ch* |
| *Wythnos yn dechrau 6.7.2020* | *Grŵp A* | *Group B* | *Dysgu o hirbell* | *Group C* | *Group Ch* |
| *Wythnos yn dechrau 13.7.2020* | *Galw Mewn / Pontio* | *Galw Mewn / Pontio* | *Dysgu o hirbell* | *Galw Mewn / Pontio* | ***Blwyddyn 6 yn unig*** |
| *Wythnos yn dechrau 20.7.2020* | *I'w gadarnhau* | *I'w gadarnhau* | *I'w gadarnhau* | *I'w gadarnhau* | *I'w gadarnhau* |

| | Blwyddyn | Amser Gollwng | Amser Casglu |
|---|---|---|---|
| | 6 | 8.45 | 12.40 |
| | 5 | 8.55 | 12.30 |
| | 4 | 9.05 | 12.15 |
| | 3 | 9.15 | 12.00 |
| | 2 | 9.30 | 11.45 |
| | 1 | 9.45 | 11.30 |

Cyn gynted ag y gallwn, byddwn yn rhyddhau fideo ar twitter i roi canllawiau ar bellter cymdeithasol a gweithdrefnau hylendid i ddisgyblion pan fyddant yn dychwelyd i'r ysgol. Bydd gwybodaeth bellach am yr wythnos pontio yn cael ei rannu yn yr wythnos sy'n dechrau 29ain Mehefin.

*Yn gywir*




Mrs E Wakeham

**Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP**
**E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**
**Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk**
**Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1**
**Ffôn/ Tel: 01792 466354**